# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

**Cyflwyno rhai pwyntiau allweddol ynghylch cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos**

## Cyllidebau cynhyrchu a dosbarthu

**Mae sawl ffordd o ddisgrifio ffilmiau prif ffrwd, cyllideb uchel:**

- ***blockbusters*** **(y gair mae newyddiadurwyr yn dueddol o'i defnyddio)**
- **ffilmiau sy'n gwneud llawer o arian (*high grossing films*) (terminoleg y diwydiant)**
- **ffilmiau 'polyn pabell' ('*tent-pole' films*) – terminoleg y diwydiant hefyd. Mae'r rhain yn ffilmiau sy'n gwneud llawer o arian ac mae'r diwydiant am gysylltu eu ffilmiau eraill â nhw (y syniad yw y bydd cynulleidfaoedd yn dychwelyd ar ôl iddyn nhw gael eu denu i'r sinema y tro cyntaf)**
- **ffilmiau cysyniad uchel (o bosibl yn derm mwy academaidd i ddisgrifio ffilmiau sy'n seiliedig ar un syniad syml y gellir ei gyflwyno'n rhwydd – yn aml ar y cyd â thrac sain sy'n ei diffinio).**

**Mae ffilmiau cyllideb uchel yn cefnogi'r ffilmiau eraill sy'n cael eu rhyddhau gan y stiwdio yn ystod y flwyddyn, ac yn tueddu i gael cyllideb o $100 miliwn o leiaf. Gall rhai gael cyllideb o dros $200 miliwn. Fel arfer, dywedir mai'r ffilm â'r gyllideb fwyaf yw *Spider-Man 3* (2007), a oedd â chyllideb o tua $258 miliwn.**

**Wrth edrych ar ddiwydiannau ffilm UDA a'r DU, mae'n aml yn ddefnyddiol cael syniad bras o faint cyffredinol cyllidebau cynhyrchu ffilmiau. Yn gyffredinol, yr isaf yw'r gyllideb, y lleiaf o arian sy'n cael ei wario ar ddosbarthu – sy'n golygu dangos y ffilm mewn ystod fwy cyfyngedig o sinemâu a gwario llai o arian ar farchnata.**

**Y ffyrdd mwyaf cyffredin o ddisgrifio cyllidebau cynhyrchu ffilmiau yw: cyllideb isel, ganolig ac uchel. Y ffyrdd mwyaf cyffredin o ddisgrifio patrymau rhyddhau yw: rhyddhau'n ddirlawn (*saturation release*), yn eang neu'n gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r diwydiant yn defnyddio categorïau mwy penodol (fel dinasoedd allweddol, dinasoedd dethol etc.) Mae rhywfaint o'r manylion hyn i'w gweld ar wefan 'Launching Films' Cymdeithas Dosbarthwyr Ffilmiau'r DU (*UK Film Distributors' Association*).**

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cyflwyno rhai pwyntiau allweddol ynghylch cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos

| Cynhyrchu | | Dosbarthu<br>Amcangyfrif o nifer y sgriniau – UDA (y DU) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhyddhau'n ddirlawn<br><br>4500 (500) | Rhyddhau'n eang<br><br>3000 (300) | Rhyddhau'n gyfyngedig<br><br>50 – 2500 ar y mwyaf (50 – 250 ar y mwyaf) |
| *Blockbuster*/ ffilmiau sy'n gwneud llawer o arian | $100m + | ✓ | ✓<br>Caiff rhai ffilmiau *blockbuster* cyllideb is eu rhyddhau'n eang | |
| Cyllideb ganolig | Rhwng $5m a $100m | | ✓<br>Caiff rhai ffilmiau cyllideb ganolig uwch eu rhyddhau'n eang | ✓ |
| Cyllideb isel | Llai na $5m | | | ✓<br>Mae rhai ffilmiau cyllideb isel yn mynd yn syth i DVD |
| Cyllideb ficro | Llai na $1.25m | | | ✓<br>Neu'n syth i DVD |

## Patrymau rhyddhau eraill

Yn gyffredinol, caiff ffilmiau 'polyn pabell' mawr eu **rhyddhau'n ddirlawn** – sy'n golygu bod y ffilm yn cael ei dangos ar y nifer mwyaf o sgriniau sydd ar gael (o leiaf un sgrin ym mhob sinema). Yn UDA, mae hyn yn cynnwys tua 4000 a mwy yn aml, a thua 500 sgrin yn y DU. Yn yr achos hwnnw, mae'r ffilm fel arfer yn cael ei rhyddhau ar yr un pryd mewn sawl gwlad o amgylch y byd.

Yn yr un modd, caiff rhai ffilmiau cyllideb ganolig penodol eu rhyddhau'n eang.

Weithiau, caiff ffilmiau eu rhyddhau ar blatfform. Ystyr hyn yw y caiff ffilm ei rhyddhau mewn nifer gyfyngedig o sinemâu i ddechrau, ond caiff ei rhyddhau'n ehangach yn raddol os bydd y ffilm yn fwy poblogaidd nag a ragwelwyd gan y dosbarthwyr. Mae *American Beauty* (1999) yn enghraifft nodedig o'r gorffennol, ond rhoddir patrwm rhyddhau tebyg i ffilmiau ag isdeitlau.

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cyflwyno rhai pwyntiau allweddol ynghylch cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos

## Tasg 1

Gwnewch rywfaint o waith ymchwil ar-lein (gan ddefnyddio, er enghraifft, imdb.com neu boxofficemojo.com neu wefan UK Film Distributors' Association) a chwiliwch am enghreifftiau o ffilmiau cyllideb uchel, ganolig ac isel, gan awgrymu beth yw eu patrwm rhyddhau.

| Cyllideb | Ffilm | Dosbarthwr | Patrwm rhyddhau |
|---|---|---|---|
| *Blockbuster* / Ffilm sy'n gwneud llawer o arian | | | |
| Cyllideb ganolig | | | |
| Cyllideb isel | | | |

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 1a)

Edrychwch ar y ffilmiau a wnaeth y mwyaf o arian yn 2013 a 2014, sy'n seiliedig ar ffigurau a gasglwyd o Box Office Mojo (wedi'u talgrynnu i'r $miliwn agosaf).

**Y ffilmiau a wnaeth y mwyaf o arian yn 2013**

| Trefn | Teitl | Stiwdio | Arian a enillwyd yn fyd-eang ($miliwn) |
|---|---|---|---|
| 1 | *Frozen* | Disney | $1274 |
| 2 | *Iron Man 3* | Marvel Studio | $1215 |
| 3 | *Despicable Me 2* | Universal / Illumination | $971 |
| 4 | *The Hobbit: The Desolation of Smaug* | Warner Bros. / New Line / MGM | $958 |
| 5 | *The Hunger Games: Catching Fire* | Lionsgate | $864 |
| 6 | *Fast and Furious 6* | Universal | $789 |
| 7 | *Monsters University* | Disney / Pixar | $734 |
| 8 | *Gravity* | Warner Bros. | $716 |
| 9 | *Man of Steel* | Warner Bros. / Legendary | $668 |
| 10 | *Thor: The Dark World* | Marvel Studios | $645 |

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Cyflwyno rhai pwyntiau allweddol ynghylch cynhyrchu, dosbarthu ac arddangos

**Y ffilmiau a wnaeth y mwyaf o arian yn 2014**

| Trefn | Teitl | Stiwdio | Arian a enillwyd yn fyd-eang ($miliwn) |
|---|---|---|---|
| 1 | *Transformers: Age of Extinction* | Paramount Pictures | $1000 |
| 2 | *Guardians of the Galaxy* | Marvel Studio | $771 |
| 3 | *Maleficent* | Walt Disney Pictures | $758 |
| 4 | *X-Men: Days of Future Past* | 20th Century Fox | $746 |
| 5 | *Captain America: The Winter Soldier* | Marvel Studios | $714 |
| 6 | *The Amazing Spider-Man 2* | Columbia Pictures | $709 |
| 7 | *Dawn of the Planet of the Apes* | 20th Century Fox | $708 |
| 8 | *How to Train Your Dragon 2* | 20th Century Fox / FreamWorks Animation | $619 |
| 9 | *Interstellar* | Paramount Pictures / Legendary Pictures | $542 |
| 10 | *Godzilla* | Warner Bros. / Legendary Pictures | $525 |

**Mewn parau, trafodwch y cwestiynau canlynol:**

- **Dewiswch dair ffilm o'r rhestr rydych chi wedi eu gweld. Beth sy'n gwneud y ffilmiau hyn yn ffilmiau *blockbuster*? Pam rydych chi'n credu eu bod nhw'n boblogaidd gyda chynulleidfaoedd?**
- **Pam mae ffilmiau sy'n gwneud llawer o arian yn bwysig i'r diwydiant ffilm?**